

Beibl i Blant

yn cyflwyno

Stopio erlid a dechrau dysgu am Iesu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2016 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.c


Roedd Duw yn gwneud pethau mawr trwy'r eglwys ifanc.
Roedd un dyn, Philip, yn brysur iawn yn dysgu pobl mewn dinas brysur am Iesu. Ond cafodd ei anfon gan Dduw i'r anialwch. Pam?


Roedd Duw yn gwybod fod teithiwr yn croesi'r anialwch - un o swyddogion Candace, brenhines Ethiopia. Roedd e'n mynd adref ac yn darllen llyfr arbennig.
Allwch chi ddyfalu pa lyfr?

Fe wnaeth Philip ufuddhau i Dduw,



ac fe gafodd ei arwain yn syth at y swyddog oedd yn darllen Gair Duw. Ond doedd e ddim yn ei ddeall. Gofynnodd i Philip eistedd yn y cerbyd gydag e.

“Beth ydy ystyr hyn?” gofynnodd y swyddog i Philip. Wrth i’r cerbyd deithio ar ffordd yr anialwch, dyma Philip yn dechrau gyda’r rhan honno o’r ysgrifau sanctaidd a mynd ati i ddweud y newyddion da am Iesu wrtho.





Mewn ychydig amser roedd y swyddog o Affrica yn credu neges y Beibl, mai Iesu Grist yw Mab Duw. Wrth weld ychydig o ddŵr, dywedodd, "Oes yna unrhyw reswm pam ddylwn i ddim cael fy medyddio?"

Atebodd Philip, "Os wyt ti wir yn credu, fe gei di dy fedyddio." Dywedodd y swyddog, "Rydw i'n credu mai Iesu yw Mab Duw." Aeth gyda Philip i lawr i'r dŵr ac fe gafodd ei fedyddio.



Wrth iddyn nhw ddod allan o'r dŵr, dyma Ysbryd yr Arglwydd yn cipio Philip i ffwrdd. Wnaeth y swyddog o Affrica mo'i weld ar ôl hynny. Aeth yn ei flaen ar ei daith i Ethiopia yn llawen.

Ond roedd rhai pobl yn casáu'r Cristnogion. Roedd Steffan, un o ffrindiau Philip, wedi cael ei ladd gan dyrfa o bobl oedd ddim am ei weld yn siarad am Iesu. Cawson nhw help gan ddyn o'r enw Saul o Darsus. Roedd yn gas gan Saul unrhyw Gristion.



Roedd Saul yn mynd o gwmpas yn bygwth lladd Cristnogion ac aeth at yr Archoffeiriad i ofyn am lythyrau oedd yn rhoi hawl iddo arestio unrhyw un oedd yn dilyn Iesu.

Druan o Saul o Darsus! Doedd e ddim yn sylweddoli ei fod e'n rhoi loes i'r Iesu wrth roi loes i bobl Dduw. Roedd yn rhaid i Dduw stopio Saul. Ond sut?

Dyma Duw yn 'arestio' Saul! Pan oedd Saul yn teithio i ddinas Damascus, fflachiodd golau disglair o'r nefoedd. Syrthiodd Saul ar lawr. Yna dyma fe'n clywed llais yn siarad.



"Pwy wyt ti, syr?" gofynnodd Saul. "Iesu ydw i, yr un rwyt ti'n ei erlid." Yn crynu mewn ofn, gofynnodd Saul, "Beth wyt ti am i mi wneud?" A dywedodd yr Arglwydd wrtho, "Cod ar dy draed a dos i mewn i'r ddinas. Cei wybod yno beth mae'n rhaid i ti ei wneud."

Roedd y dynion oedd gyda Saul hefyd yn clywed y llais ond doedden nhw'n gweld neb. Cododd Saul ar ei draed – a sylweddoli ei fod e'n ddall. Dyma nhw'n ei arwain i mewn i Damascus.



Arhosodd yn Damascus am dri diwrnod. Roedd e'n ddall ac yn gwrthod bwyta nac yfed. Tybed a wnaeth e ddefnyddio'r amser i siarad gyda'r Arglwydd Iesu oedd wedi dod i'w gyfarfod ar y ffordd i Ddamascus?

Roedd Duw wedi cynllunio popeth. Roedd dyn o'r enw Ananias yn byw yn Damascus. Anfonodd yr Arglwydd e i helpu Saul. Roedd gan Ananias ofn. Ond roedd yn ufudd i Dduw. Pan roddodd ei ddwylo ar Saul, dechreuodd weld eto ac fe gafodd ei lenwi â'r Ysbryd Glân.



Cafodd Saul ei fedyddio. Yna cymerodd rywbeth i'w fwyta. Ar ôl bwyta, roedd yn teimlo'n gryfach. Roedd Saul angen bod yn gryf- roedd gwaith pwysig iawn o'i flaen.

Aeth ati ar unwaith i bregethu yn y synagogau mai Iesu ydy Mab Duw. Roedd pawb wedi'u syfrdanu, ac yn dweud, "Nid dyma'r dyn oedd yn gwneud drwg i'r Cristnogion?" Dyma rai yn gwneud cynllwyn i ladd Saul.



Roedd gelynion newydd Saul yn gwylio giatiau'r ddinas er mwyn lladd Saul wrth iddo adael y ddinas. Ond fe wnaeth ei ffrindiau newydd, y Cristnogion, ei ollwng i lawr waliau'r ddinas mewn basged.

Ac ar ôl hynny? Fe wnaeth Saul, prif erlidiwr y Cristnogion fyw fel disgybl ffyddlon i'w Feistr newydd, yr Arglwydd Iesu Grist.

Stopio erlid a dechrau dysgu am Iesu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 8-9

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130


Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16